Gofal Cymdeithasol Cymru
Social Care Wales

Dysgu

Mae'r dudalen hon yn casglu gwybodaeth, canllawiau ac adnoddau dysgu i gefnogi eich dysgu a'ch datblygiad trwy gydol eich gyrfa.

Cyhoeddwyd gyntaf: 26 October 2026
Diweddariad olaf: 11 November 2026

> Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf. Ewch i https://gofalcymdeithasol.cymru/dysgu am y fersiwn diweddaraf.

Mae dysgu yn eich helpu i ddatblygu'r wybodaeth, y sgiliau a'r ymddygiadau sydd eu hangen arnoch ar gyfer eich rôl, fel y gallwch ddarparu gofal a chymorth o ansawdd uchel.

Gall dysgu fod wedi'i gynllunio neu heb ei gynllunio, a gall ddigwydd mewn gwahanol ffyrdd, gan gynnwys:

- hyfforddiant
- e-ddysgu
- gweminarau
- darllen
- trafodaethau proffesiynol
- arferion dydd-i-ddydd.

Dylai dysgu fod yn berthnasol i'ch rôl, eich anghenion datblygu, ac anghenion y bobl rydych chi'n gofalu amdanyn nhw neu'n eu cefnogi.

Mae'r dudalen hon yn casglu gwybodaeth, canllawiau ac adnoddau dysgu i gefnogi eich dysgu a'ch datblygiad trwy gydol eich gyrfa.

Cynllunio eich dysgu

Mae cynllunio eich dysgu yn eich helpu i nodi eich anghenion datblygu a manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd.

Wrth gynllunio eich dysgu, ystyriwch:

- eich rôl a'ch cyfrifoldebau
- adborth o oruchwylio
- dysgu o'ch ymarfer dydd-i-ddydd

- newidiadau mewn deddfwriaeth, canllawiau neu arfer gorau
- eich anghenion dysgu a datblygu yn y dyfodol.

Gall y wybodaeth a'r adnoddau canlynol gefnogi sgyrsiau am ddysgu a datblygu, a helpu i nodi'r wybodaeth, y sgiliau a'r ymddygiadau sydd eu hangen ar gyfer eich rôl.

- Codau Ymarfer Proffesiynol
- Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS)
- Fframwaith cymwysterau
- Fframwaith tâl a dilyniant

Dechrau eich gyrfa

P'un ai ydych chi'n newydd i ofal cymdeithasol, yn dechrau rôl newydd neu'n dychwelyd i ymarfer, mae ystod o wybodaeth, canllawiau ac adnoddau dysgu ar gael i gefnogi eich dysgu a'ch datblygiad.

Archwiliwch y wybodaeth a'r adnoddau isod i'ch helpu i ddeall eich rôl, datblygu gwybodaeth a sgiliau craidd, ac ennill hyder yn eich ymarfer.

- Fframwaith sefydlu
- Newydd i weithio ym maes gofal cymdeithasol yng Nghymru
- Cofrestru
- Codau Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Gofal Cymdeithasol
- Fframwaith cymwysterau
- Gwerthoedd ar gyfer ymarfer sy'n seiliedig ar gryfderau

Datblygu eich ymarfer

Mae dysgu yn rhan barhaus o ddatblygiad proffesiynol. Wrth i chi ennill profiad, mae dysgu yn eich helpu i gryfhau eich gwybodaeth, datblygu eich sgiliau ac ennill hyder yn eich rôl.

Mae gwybodaeth, canllawiau ac adnoddau dysgu ar gael isod i gefnogi datblygiad parhaus yn eich rôl.

- Ymarfer sy'n seiliedig ar gryfderau
- Modiwlau dysgu
- Diogelu
- Defnyddio'r Gymraeg yn y gwaith
- Adnoddau lles
- Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS)
- Atal a rheoli heintiau.

Meysydd ymarfer arbenigol

Wrth i'ch rôl ddatblygu, efallai y bydd angen i chi adeiladu ar eich gwybodaeth a'ch sgiliau mewn meysydd ymarfer penodol.

Archwiliwch bynciau arbenigol i ddod o hyd i wybodaeth, canllawiau ac adnoddau dysgu sy'n cefnogi eich maes ymarfer.

- Dementia
- Niwroamrywiaeth
- Dulliau cadarnhaol a lleihau arferion cyfyngol
- Risg gadarnhaol a gwneud penderfyniadau ar y cyd
- Deddf Galluedd Meddyliol a'r Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS)
- Cwrs iaith Gymraeg 'Camau'

- Gwrth-hiliaeth
- HIV – ‘Dim modd ei drosglwyddo’
- Modiwlau hyfforddi a chyrsiau ar gyfer gweithwyr gofal.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae arweinyddiaeth a rheolaeth yn chwarae rhan bwysig wrth ddarparu gofal a chymorth o ansawdd uchel, datblygu timoedd a chreu diwylliannau dysgu cadarnhaol.

P'un ai ydych am symud i rôl arwain, goruchwylio cydweithwyr neu reoli gwasanaeth, gallwch gael gafael ar wybodaeth, canllawiau ac adnoddau dysgu isod i gefnogi eich dysgu a'ch datblygiad.

- Camau cyntaf mewn rheoli
- Fframwaith sefydlu ar gyfer rheolwyr gofal cymdeithasol
- Adnoddau dysgu ar gyfer arweinyddiaeth a rheoli
- Goruchwyliaeth effeithiol
- Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth a Rheoli
- Goruchwyliaeth sy'n canolbwyntio ar gryfderau
- Gofalu am les eich tîm
- Cod Ymarfer Proffesiynol i Gyflogwyr Gofal Cymdeithasol.

Myfyrio ar eich dysgu

Mae myfyrio yn rhan bwysig o ddysgu a datblygiad proffesiynol. Mae cymryd amser i fyfyrio yn eich helpu i ddeall beth rydych chi wedi'i ddysgu, sut mae'n berthnasol i'ch rôl, a beth arall y gallai fod angen i chi ei ddysgu neu ei

ddatblygu.

Gallwch fyfyrio ar eich pen eich hun neu gydag eraill, er enghraifft yn ystod sesiynau goruchwylio neu gyfarfodydd tîm. Gall trafod dysgu gyda chydweithwyr eich helpu i wirio eich dealltwriaeth, archwilio safbwyntiau gwahanol a nodi ffyrdd o wella eich ymarfer. Mae rhannu dysgu hefyd yn cefnogi arfer da ar draws timoedd a gall wella canlyniadau i bobl sy'n derbyn gofal a chymorth.

Gall yr adnoddau canlynol gefnogi ymarfer myfyriol.

- Ymarfer myfyriol
- Myfyrio ar eich dysgu
- Ffyrdd gwahanol o fyfyrio
- Cofnod dysgu
- Cwestiynau myfyriol ar gyfer goruchwyliaeth

Cynllunio eich datblygiad

Mae dysgu yn parhau drwy gydol eich gyrfa. Wrth i'ch rôl a'ch cyfrifoldebau ddatblygu, gall eich anghenion dysgu a datblygu newid hefyd.

Mae sesiynau goruchwylio a sgyrsiau datblygu rheolaidd yn rhoi cyfle i chi adolygu'r hyn rydych wedi'i ddysgu, nodi anghenion datblygu'r dyfodol, a chynllunio dysgu sy'n cefnogi eich rôl a datblygiad eich gyrfa.

Gall y wybodaeth a'r adnoddau isod eich helpu i barhau â'ch datblygiad proffesiynol.

- Deall Datblygiad proffesiynol parhaus (DPP)
- Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS)

- Fframwaith cymwysterau
- Fframwaith tâl a dilyniant

Tudalennau cysylltiedig

- Deall DPP
- Ymarfer myfyriol
- Cofrestru
- Codau Ymarfer Proffesiynol
- Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS)
- Fframwaith cymwysterau
- Fframwaith tâl a dilyniant